Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Rhos

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Y Rhos

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Y Rhos |
| Perchennog | Unique Care Homes Ltd. |
| Awdurdod lleol | Sir y Fflint |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Arbennig annibynnol |
| Darpariaeth breswyl? | Oes |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 11 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 11 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 04/12/2023 |

Mae Ysgol y Rhos wedi'i lleoli ar dir dau hen gaban gwyliau mewn ardal wledig rhwng Wrecsam a'r Wyddgrug. Mae'r perchennog, Unique Care Homes Ltd., yn gwmni cyfyngedig preifat, sy'n cynnal pump o gartrefi plant yn Wrecsam a Sir Ddinbych.

Mae'r ysgol wedi'i chofrestru ar gyfer 16 o ddisgyblion rhwng 8 ac 16 oed sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae gan lawer o'r plant hanes o fethiannau o ran lleoliad a chael eu gwahardd o ysgolion prif ffrwd.

Mae 11 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd. Mae pob un o'r disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn byw yn y cartrefi plant sy'n eiddo i'r sefydliad ehangach. Caiff tua hanner y plant eu lleoli gan awdurdodau lleol yng Nghymru, yn cynnwys Ynys Môn, Caerdydd, Caerfyrddin a Gwynedd. Caiff tua hanner y plant eu lleoli gan awdurdodau lleol yn Lloegr.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er mis Medi 2023, a dyma'r pedwerydd pennaeth ers i'r ysgol agor ym mis Ionawr 2019. Fe'i cefnogir gan bedwar o athrawon amser llawn, parhaol a chymwys. Dechreuodd dau o'r athrawon hyn ym mis Medi 2023. Mae staff o gartrefi plant y cwmni yn cynorthwyo'r disgyblion yn yr ysgol. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn gweithio ochr yn ochr â dau seicotherapydd celf.

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol y Rhos yn gymuned ofalgar ac anogol lle mae staff yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol â disgyblion yn seiliedig ar barch ar y ddwy ochr. O ganlyniad, dros eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau cymdeithasol a'u hyder. I'r disgyblion hyn, y mae bron pob un ohonynt wedi cael trafferth ag addysg ffurfiol yn y gorffennol, mae hyn yn gynnydd cadarn.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae datblygiad medrau disgyblion yn gyfyngedig oherwydd y diffyg cyfleoedd iddynt ddefnyddio'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu medrau corfforol buddiol trwy'r ffocws priodol ar chwaraeon a gweithgareddau awyr agored. Mae disgyblion yn mwynhau'r sesiynau hyn ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig. Mae hyn hefyd yn cefnogi datblygiad gwydnwch a hunanhyder disgyblion yn gadarnhaol.

Ar hyn o bryd, mae cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion gyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar yr ysgol. Yn ychwanegol, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau arwain yn ddigon da oherwydd y diffyg cyfleoedd sydd ar gael iddynt.

Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm cytbwys, sy'n bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003. Fodd bynnag, mewn ychydig o feysydd y cwricwlwm fel technoleg, addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh), addysg rhyw a pherthnasoedd a gyrfaoedd, mae'r ddarpariaeth yn gyfyngedig.

Mae athrawon yn cynllunio profiadau sy'n meithrin medrau disgyblion yn eang wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw cynllunio yn cysylltu'n ddigon da yn gyson ag anghenion dysgu ychwanegol y disgyblion na thystiolaeth o asesiadau'r ysgol ei hun. O ganlyniad, mewn lleiafrif o wersi, nid yw gweithgareddau'n darparu her na chyfle digonol i adeiladu ar brofiadau a dysgu blaenorol disgyblion. Yn ychwanegol, ceir cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion gyflawni achrediad o fewn yr ysgol.

Mae athrawon yn cynllunio targedau sy'n cefnogi dysgu mewn meysydd perthnasol sy'n gysylltiedig â'r amcanion mewn cynlluniau datblygu unigol (CDUau) disgyblion neu ddogfennau cyfatebol. Fodd bynnag, mae gweithdrefnau cyfyngedig ar waith i olrhain a monitro cynnydd yn erbyn y targedau hyn, ac o ganlyniad, nid oes darlun clir o'r cynnydd a wna disgyblion dros gyfnod. At ei gilydd, mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu prosesau ar gyfer olrhain, monitro a gwerthuso effaith gwaith yr ysgol o ran y cynnydd a wna disgyblion.

Ers i'r ysgol agor yn 2019, bu newidiadau rheolaidd a sylweddol mewn arweinyddiaeth a staffio yn yr ysgol. Ni chaiff prosesau a gweithdrefnau yn yr ysgol eu hymgorffori'n gyson oherwydd diwygiadau rheolaidd. O ganlyniad, mae hyn yn cyfyngu ar y cynnydd y gall staff ei wneud i wella'r ysgol a chynnydd y disgyblion.

Nid yw'r ysgol yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 ac mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cyfyngedig yn erbyn yr argymhellion a adawyd gan arolygwyr yn yr ymweliad diwethaf.

## Cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003. Mae'r rheoliadau hyn yn gofyn i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

**Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

Er bod yr ysgol yn bodloni'r rhan fwyaf o'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon, er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- Sicrhau bod yr ysgol yn darparu addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd sy'n adlewyrchu nodau ac ethos yr ysgol [1(2)(f)]
- Sicrhau bod athrawon yn dangos dealltwriaeth dda o ddoniau, anghenion a chyraeddiadau blaenorol y disgyblion, a bod y rhain yn cael eu hystyried wrth gynllunio gwersi [1(3)(d)]
- Sicrhau bod fframwaith ar waith i asesu gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn drylwyr a bod gwybodaeth o asesiad o'r fath yn cael ei defnyddio i gynllunio addysgu er mwyn i ddisgyblion allu gwneud cynnydd [1(3)(g)]
- Sicrhau bod gan yr ysgol fframwaith ar waith er mwyn gallu gwerthuso perfformiad disgyblion trwy gyfeirio naill ai at nodau'r ysgol ei hun, fel a ddarperir i rieni ac/neu yn ôl normau cenedlaethol [1(4)]

**Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

Er bod yr ysgol yn bodloni'r rhan fwyaf o'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon, er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- Ddarparu gwybodaeth gyffredinol, eang i ddisgyblion am sefydliadau a gwasanaethau cyhoeddus [2(d)]
- Cynorthwyo disgyblion i werthfawrogi eu diwylliannau eu hunain a diwylliannau eraill, mewn ffordd sy'n hyrwyddo goddefgarwch a chytgord rhwng gwahanol draddodiadau diwylliannol [2(e)]

**Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

Er bod yr ysgol yn bodloni'r rhan fwyaf o'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon, er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- Sicrhau bod yr ysgol wedi paratoi a gweithredu polisi ysgrifenedig yn ymwneud ag iechyd a diogelwch disgyblion ar weithgareddau y tu allan i'r ysgol [3(2)(b)]
- Cadw cofnodion ysgrifenedig o gosbau a osodir ar ddisgyblion am droseddau disgyblu difrifol [3(8)]
- Cynnal cofrestr derbyn a phresenoldeb yn unol â Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 [3(9)]

**Addasrwydd perchnogion a staff**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Darparu gwybodaeth**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhellion

A1 Cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003

A2 Sicrhau bod gwybodaeth am asesiadau, ymddygiad a phresenoldeb yn cael ei defnyddio'n systematig i roi darlun clir o'r cynnydd a wna disgyblion dros gyfnod

A3 Gwella gweithdrefnau ar gyfer sicrhau ansawdd a chynllunio gwelliant i ganolbwyntio ar gynnydd disgyblion a'r safonau maent yn eu cyflawni

A4 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol, addysg rhyw a pherthnasoedd a gyrfaoedd

## Beth sy'n digwydd nesaf

Gan nad yw'r ysgol yn bodloni'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer cofrestru, bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r perchennog gyflwyno cynllun gweithredu o fewn cyfnod amser penodol. Bydd y cynllun hwn yn amlinellu'r camau y bydd yr ysgol yn eu cymryd i fodloni'r safonau, a'r raddfa amser y bydd yn cwblhau pob cam ynddi.

Mae Estyn yn cynghori'r perchennog i ddiwygio'i gynllun datblygu presennol i ddangos pa gamau y mae'r ysgol yn bwriadu eu cymryd i ymateb i'r argymhellion. Dylai hefyd ddosbarthu'r cynllun hwn, neu grynodeb ohono, i'r holl rieni / gofalwyr yn yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymuno â'r ysgol ar ôl cyfnodau o darfu ar eu haddysg. Maent yn aml yn cael trafferth â dysgu ffurfiol ac amgylchedd yr ystafell ddosbarth.

At ei gilydd, mae mwyafrif y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn cyfathrebu â staff ac ymwelwyr yn hyderus. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud cyfraniadau priodol at drafodaethau dosbarth ac yn esbonio'u syniadau ag eglurder addas. Er enghraifft, mae disgyblion yn disgrifio cymeriadau o'r llyfr 'Kensuke's Kingdom' yn glir neu'n cyfieithu ymadroddion o'r Saesneg i'r Gymraeg â hyder. Mae'r disgyblion hyn yn gwrando'n ofalus ar eu cyfoedion ac ar staff. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn amharod i gymryd rhan mewn gwaith trafod neu'n rhoi ymatebion byr ac annatblygedig yn unig. Mae geirfa gyfyngedig y disgyblion hyn yn aml yn eu hatal rhag mynegi eu syniadau'n glir.

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn defnyddio geirfa yn benodol i bwnc sy'n briodol i'w hanghenion. Er enghraifft, mewn gwersi gwyddoniaeth, mae disgyblion yn defnyddio'r termau cylched, cell a bylb yn gywir.

Caiff ychydig iawn o ddisgyblion gyfle i wella'u medrau darllen a datblygu medrau deall syml. Yn ychwanegol, ceir cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion ddatblygu medrau darllen ar lefel uwch, fel nodi'r diben neu ystyried gwahanol safbwyntiau.

Mewn llawer o achosion, mae ysgrifennu disgyblion yn briodol o glir. Fodd bynnag, mae ansawdd cyflwyniad gwaith ysgrifenedig yn amrywiol. Ychydig iawn o ddisgyblion yn unig sy'n ysgrifennu darnau gwaith estynedig. Mae hyn yn cyfyngu ar eu cyfleoedd i ysgrifennu mewn ystod o arddulliau ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd neu olygu eu gwaith i wella'u dewisiadau geirfa.

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn briodol. Mewn gwersi mathemateg, mae disgyblion yn defnyddio cysyniad ffracsiynau ac yn gweithio ar ddatblygu medrau rhifedd i baratoi ar gyfer mathemateg TGAU.

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu ychydig o fedrau pwysig a fydd yn cefnogi eu hannibyniaeth ar ôl iddynt adael yr ysgol. Er enghraifft, maent yn ennill medrau mewn meysydd pwysig fel paratoi eu bwyd eu hunain neu ofalu am anifeiliaid fel Eddie, mochyn cwta'r ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar fedrau digidol sylfaenol addas, fel prosesu geiriau, ac yn defnyddio'r rhyngrwyd i ymchwilio i wybodaeth. Fodd bynnag, nid yw'r

cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol yn raddol dros gyfnod ac ar draws y cwricwlwm wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn briodol trwy addysg awyr agored reolaidd wedi'i hamserlennu, lle maent yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau cyffrous, fel padlfyrddio, canŵio a cherdded ceunentydd. Yn ychwanegol, mae disgyblion yn cymryd rhan mewn digwyddiad diwrnod chwaraeon blynyddol a sesiynau chwaraeon wythnosol. Er enghraifft, maent yn datblygu eu medrau mewn pêl-droed a rownderi gyda chyfoedion a'r tîm staff ehangach.

Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu medrau creadigol gwerthfawr. Er enghraifft, maent yn creu paentiadau leino dychmygus ac yn efelychu delweddau lliwgar yn arddull yr arlunydd Frida Kahlo.

Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn dangos medrau dysgu'n annibynnol. Er enghraifft, maent yn dewis yr offer cywir yn rhagweithiol mewn celf i sicrhau eu bod wedi paratoi ar gyfer y wers. Fodd bynnag, mae mwyafrif y disgyblion yn gorddibynnu ar gymorth staff i gyfeirio'u dysgu ac nid ydynt yn datblygu medrau dysgu'n annibynnol sy'n briodol i oedran.

Nid yw'n briodol cymharu'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn yr ysgol â chyfartaleddau cenedlaethol neu i ddadansoddi tueddiadau perfformiad grwpiau dros gyfnod oherwydd natur anghenion ymddygiadol, cymdeithasol ac emosiynol disgyblion.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu perthnasoedd gweithio cryf gyda staff yr ysgol. Maent yn siarad yn barchus â staff a gyda'i gilydd. Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus i rannu gofidiau, pryderon neu syniadau gyda staff addysgu.

Yn ystod yr arolygiad, ni fynychodd lleiafrif o ddisgyblion. Mae presenoldeb yn yr ysgol yn wael, ar y cyfan. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn cyrraedd gwersi'n brydlon. Mae hyn yn rhwystro'u dysgu ac yn tarfu ar ddysgu disgyblion eraill.

Yn ystod gwersi, mae mwyafrif y disgyblion yn dibynnu'n ormodol ar gymorth staff i gyfeirio'u dysgu. O ganlyniad, nid oes gan y disgyblion hyn y gwydnwch bob amser i ymdopi pan fyddant yn gweld rhywbeth yn anodd neu'n cael rhywbeth yn anghywir yn eu gwaith. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd disgyblion i wneud cynnydd neu bontio i ddarpariaethau addysgol eraill.

Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda ag ymwelwyr â'r ysgol. Maent yn cyfathrebu'n barchus ac yn briodol, gan ddangos medrau cymdeithasol a hyder priodol. Mae mwyafrif y disgyblion yn parchu ei gilydd ac yn gwrando ar staff addysgu a chyfoedion, gan gymryd eu tro yn briodol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn dangos digon o ddiddordeb yn eu gwaith, ac nid yw lleiafrif ohonynt yn aros yn y dosbarth tan ddiwedd y wers. Caiff yr ymddygiad hwn effaith negyddol sylweddol ar eu dysgu eu hunain.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwerthfawrogi'r gwobrau sydd ar gael am eu cyflawniadau ac yn deall y polisi ymddygiad. Fodd bynnag, nid yw ychydig o

ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol oherwydd ymddygiadau disgyblion eraill, sy'n cael effaith negyddol ar eu lles. Nid yw ychydig o ddisgyblion yn ymddwyn yn ddigon da yn ystod gwersi ac nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn ddigon da yn ystod adegau anstrwythuredig, fel amseroedd egwyl ac amser cinio. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl rhoi sylwadau ar y tueddiadau mewn ymddygiad dros gyfnod.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth addas o sut i aros yn ddiogel ar-lein, ac yn trafod hyn gyda staff ac ymwelwyr yn hyderus.

Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo y gwrandewir arnynt a'u bod yn rhoi mewnbwn anffurfiol i fywyd yr ysgol. Er enghraifft, rhoddir dewis iddynt yn eu gweithgareddau dysgu corfforol a'u rhaglen wobrau. Mae disgyblion yn mwynhau gwneud penderfyniadau am ble maent yn dymuno mynd ar dripiau a gweithgareddau oddi ar y safle. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu eu cyfranogiad mewn gweithgareddau ffurfiol llais y disgybl. Mae hyn yn cyfyngu ar alluoedd disgyblion i ddatblygu medrau rhesymu ac arwain trwy ymgysylltu â thrafodaethau sy'n cynnwys cymuned yr ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mynychu addysg awyr agored lle maent yn mwynhau ymgymryd ag ystod o weithgareddau awyr agored, lle maent yn datblygu hunan-barch, medrau meithrin tîm a hunanhyder. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn mwynhau chwarae gemau pêl-droed gyda staff a chyfoedion yn ystod amseroedd egwyl.

Mae mwyafrif y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn gwneud prydau bwyd syml iddyn nhw eu hunain yn rheolaidd i frecwast a chinio. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd diet iach ac nid ydynt yn dewis bwydydd iach yn ystod y diwrnod ysgol.

Mae ychydig o ddisgyblion yn yr ysgol yn defnyddio'u medrau creadigol yn briodol fel rhan o weithgareddau codi arian a menter. Er enghraifft, maent yn pobi cacennau cwpan ac yn creu gemwaith i godi arian ar gyfer elusen fel rhan o ffair Nadolig. Mae hyn yn eu cynorthwyo'n gadarnhaol i ddeall pwysigrwydd eu rôl fel rhan o'r gymuned.

Mae mwyafrif y disgyblion yn mwynhau dathlu llwyddiannau ar y cyd â'r tîm staff cyfan. Dros gyfnod, maent yn dysgu cydnabod cyflawniadau eu cyfoedion trwy'r wythnos ac yn deall pwysigrwydd derbyn siom. Yn ychwanegol, mae disgyblion yn deall manteision myfyrio ar eu hemosiynau eu hunain yn ystod y gwasanaethau wythnosol gwerthfawr.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

At ei gilydd, mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm sy'n briodol o eang a chytbwys yn gyffredinol, sy'n bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd i ddatblygu medrau digidol a thechnolegol disgyblion wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae'r cwricwlwm wedi'i drefnu'n briodol yn feysydd dysgu, sy'n bodloni diddordebau'r rhan fwyaf o ddisgyblion, ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi datblygu profiadau dysgu sy'n briodol o gynyddol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso'u

medrau ar draws y cwricwlwm. Yn ychwanegol, ceir cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion gyflawni achrediad ar draws ystod o bynciau ar lefelau priodol.

Mae'r ysgol yn dechrau datblygu'r cwricwlwm ar gyfer addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd (ABGI) disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o ffyrdd iach o fyw a thrin arian. Mae'r ysgol wedi cael cymorth gan y swyddog heddlu cymunedol ar gyflwyno testunau fel radicaleiddio, eithafiaeth a deall troseddau casineb. Fodd bynnag, nid oes ymagwedd gydlynol at addysgu materion pwysig i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o'u lles a'u hunaniaeth eu hunain yn llwyddiannus. Er enghraifft, nid yw'r ddarpariaeth yn ymwneud ag addysg rhyw a pherthnasoedd neu i ddatblygu gwybodaeth disgyblion am wasanaethau cyhoeddus a gwerthfawrogiad o wahanol ddiwylliannau, wedi'i datblygu'n ddigonol.

Mae staff addysgu yn yr ysgol yn gwybod yn dda am ddiddordebau disgyblion. Fodd bynnag, nid oes ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o anghenion dysgu ychwanegol (ADY) disgyblion. Mae staff addysgu'n dechrau casglu ystod addas o wybodaeth asesiadau gwaelodlin, sy'n canolbwyntio'n briodol ar fedrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi'i sefydlu'n dda, ac nid yw staff addysgu'n defnyddio'r asesiadau hyn yn ddigon cyson nac yn ddigon effeithiol i olrhain a monitro cynnydd disgyblion. Nid yw data asesu yn llywio cynllunio yn y dyfodol yn ddigon da i gyflawni ymyriadau priodol i ddiwallu anghenion disgyblion unigol.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn rhoi cyfarwyddiadau clir ac esboniadau buddiol i ddisgyblion. Mae'r athrawon hyn yn glir o ran eu disgwyliadau ac yn modelu'n effeithiol sut beth allai llwyddiant fod. Maent yn defnyddio holi yn briodol i wirio bod disgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof ac yn rhoi adborth llafar cadarnhaol. Yn ychwanegol, mae llawer o athrawon yn hyblyg i anghenion emosiynol datblygol y disgyblion ac yn addasu gwersi'n fedrus, yn ôl yr angen.

Mewn ychydig o wersi lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, mae disgwyliadau athrawon yn rhy isel. Nid ydynt yn cynllunio gweithgareddau sy'n briodol o heriol nac yn herio diffyg ymgysylltiad disgyblion yn ddigonol. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd boddhaol nac yn datblygu digon o annibyniaeth a gwydnwch mewn dysgu.

Mae staff addysgu yn yr ysgol yn rhoi canmoliaeth reolaidd a gwerthfawr i ddisgyblion ar lafar i ennyn eu diddordeb a'u cymell yn eu dysgu. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw'r defnydd o adborth i helpu disgyblion i ddeall pa mor dda y maent yn gwneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod gyfyngedig o gyfleoedd cyfoethogi sy'n ychwanegu at brofiadau ehangach disgyblion yn briodol. Mae athrawon yn cynllunio digwyddiadau a thripiau i ymestyn profiadau disgyblion. Er enghraifft, maent yn trefnu tripiau diddorol i Sŵ Caer ac Amgueddfa Wrecsam i ehangu dealltwriaeth disgyblion o'r ardal leol. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn trefnu 'wythnosau gweithgareddau' diddorol o dro i dro. Er enghraifft, mae disgyblion yn gweithio gydag arlunydd celf stryd i greu murluniau lliwgar ar waliau'r ysgol.

Nid yw staff cymorth o'r cartrefi preswyl cysylltiedig sy'n cynorthwyo disgyblion yn yr ysgol yn gyson ymwybodol o'u rolau yn yr ystafell ddosbarth. Yn ychwanegol, nid yw staff addysgu yn rhannu amcanion dysgu'n glir â'r aelodau staff hyn i'w galluogi i gefnogi dysgu'n effeithiol.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn rhoi disgrifiad defnyddiol o gynnydd cyffredinol ym mhob maes pwnc. Fodd bynnag, mae adroddiadau i rieni yn ddisgrifiadol, ar y cyfan, ac nid ydynt yn cynnwys cyfeiriad at feysydd pwysig yn gysylltiedig â chynnydd disgyblion mewn meysydd fel presenoldeb, prydlondeb neu ymddygiad. Hefyd, nid ydynt yn datgan yn glir beth yw cynnydd disgwyliedig disgyblion yn erbyn eu mannau cychwyn hysbys.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol y Rhos yn darparu amgylchedd cefnogol a gofalgar i ddisgyblion er mwyn iddynt allu archwilio'u cryfderau cymdeithasol, emosiynol a dysgu. Mae staff yn gwybod yn dda beth yw diddordebau'r disgyblion ac maent yn empathig i'w hanghenion unigol.

Yn gyffredinol, mae staff addysgu yn yr ysgol yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion wrth iddynt gael eu derbyn i'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol bob amser yn derbyn gwybodaeth am ADY disgyblion mewn modd amserol. Yn ychwanegol, nid oes gan yr ysgol systemau clir ar waith ar gyfer nodi ADY disgyblion unigol pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol. Hefyd, nid oes gweithdrefnau trylwyr ar waith i sicrhau bod dogfennau statudol yn cael eu hadolygu'n briodol bob blwyddyn. Mae hyn yn rhwystro gallu'r ysgol i sicrhau ei bod yn diwallu ADY ei disgyblion, ac yn cyfyngu ar y cynnydd y gallant ei wneud.

Mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu Cyngor Ysgol yn yr ysgol. O ganlyniad, mae'r cyfleoedd i ddisgyblion gael llais mewn cynnal yr ysgol o ddydd i ddydd neu ddal cyfrifoldebau arwain yn gyfyngedig.

Mae prosesau'r ysgol ar gyfer cofnodi, monitro ac olrhain cynnydd a lles disgyblion, gan gynnwys presenoldeb ac ymddygiad, wedi'u tanddatblygu'n sylweddol. O ganlyniad, ni all yr ysgol nodi materion perthnasol yn glir ac ymateb yn briodol i ddeilliannau monitro ac olrhain, er enghraifft trwy ddarparu cymorth neu her briodol neu ddefnyddio strategaethau ymyrraeth. Hefyd, mae hyn yn cyfyngu ar allu'r ysgol i ddangos effaith ei gwaith neu adnabod unrhyw batrymau a thueddiadau a allai effeithio ar y cynnydd a wna disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu cynlluniau llwybr dysgu personol defnyddiol ar gyfer yr holl ddisgyblion, sy'n cynnwys targedau perthnasol. Fodd bynnag, nid yw staff yn monitro nac yn olrhain cynnydd disgyblion yn erbyn eu targedau personol yn ddigon da. Mae'r ysgol hefyd yn darparu cynlluniau cymorth ymddygiad cadarnhaol manwl ar gyfer lleiafrif o ddisgyblion. Mae'r rhain yn amlinellu strategaethau addas i gynorthwyo disgyblion i hunanreoli, a gwybodaeth ddefnyddiol i helpu staff i adnabod sbardunau a darparu ymateb tra ystyriol, graddedig, fel y bo'n briodol. Fodd bynnag, ni ddefnyddir y cynlluniau hyn fel mater o drefn i lywio arfer ystafell ddosbarth.

Mae'r ysgol yn elwa ar gymorth tîm therapiwtig sy'n cynnwys dau seicotherapydd celf. Mae'r cymorth hwn yn rhoi cyfleoedd buddiol i'r ysgol rannu gwybodaeth o ystod o asesiadau defnyddiol o anghenion ehangach disgyblion. Yn ychwanegol, mae'r tîm yn cynnig cymorth a hyfforddiant gwerthfawr i staff mewn ystod briodol o feysydd yn gysylltiedig ag anghenion cymdeithasol, emosiynol a meddyliol y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r effaith a gaiff therapi ar les disgyblion a'u hagweddau at ddysgu yn cael ei gwerthuso'n ddigon da.

Mae'r ysgol yn elwa ar weithio gwerthfawr mewn partneriaeth ag asiantaethau fel y swyddog heddlu cymunedol, y nyrs ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a thîm y sefydliad ehangach. Mae hyn yn helpu cynorthwyo disgyblion i ddatblygu gwybodaeth a medrau i'w cadw eu hunain yn ddiogel. Fodd bynnag, mae gwaith i ddyfnhau dealltwriaeth disgyblion o'r meysydd datblygiad personol pwysig hyn o fewn y cwricwlwm yn annigonol. Nid yw darpariaeth yr ysgol i helpu disgyblion i ddatblygu'r medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth i wneud dewisiadau iach am ffordd o fyw, er enghraifft o ran camddefnyddio sylweddau, rhyw a pherthnasoedd, wedi'i datblygu'n ddigonol. Yn ychwanegol, mae'r ddarpariaeth i gynorthwyo disgyblion i werthfawrogi diwylliannau a chrefyddau eraill, a deall eu lle yn y byd, yn gyfyngedig iawn.

Mae trefniadau diogelu priodol ar waith, a chaiff staff perthnasol eu nodi'n arweinwyr diogelu dynodedig ar gyfer yr ysgol. Mae gwerthusiadau'r ysgol o'i threfniadau diogelu yn gywir ac wedi cynorthwyo arweinwyr i wneud gwelliannau i ddiogelu yn yr ysgol. Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer recriwtio staff yn fwy diogel yn gadarn.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth

Ers agor yn 2019, mae Ysgol y Rhos wedi profi ansefydlogrwydd sylweddol o ran arweinyddiaeth a'r tîm addysgu. Dros gyfnod, mae gwahanol arweinwyr wedi cael gwahanol flaenoriaethau ar gyfer yr ysgol a gwahanol ddisgwyliadau o staff. Mae hyn wedi arwain at ddiffyg eglurder i staff, sydd wedi dechrau mentrau gydag un arweinydd, ac wedyn wedi cael eu newid gan arweinydd arall. Nid yw'r newidiadau hyn wedi cefnogi ymagwedd gydlynus na graddol at ddatblygu addysgu a dysgu.

Mewn cyfnod amser byr, mae'r pennaeth newydd wedi sefydlu a chyfleu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol. Mae'n gosod disgwyliadau uchel ar gyfer y tîm staff cyfan ac yn dangos lefel uchel o ymrwymiad i wneud amser pawb yn yr ysgol yn fuddiol a boddhaus. Mae'r pennaeth yn ymdrechu i 'ganfod y llawenydd' ym mhob disgybl sy'n mynychu'r ysgol ac yn datblygu diwylliant o ymddiriedaeth. Yn hyn o beth, mae'r pennaeth yn arwain trwy esiampl.

Mae'r perchnogion wedi ymrwymo i welliannau tymor hir ar gyfer yr ysgol ac wedi buddsoddi'n sylweddol mewn sicrhau bod staff yr ysgol yn cynnwys athrawon cymwys ac arweinwyr profiadol. Yn ychwanegol, mae'r perchnogion wedi ymrwymo i ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer darpariaeth Gymraeg, a gwnaed penodiadau diweddar gan roi ystyriaeth briodol i hyn.

Megis dechrau datblygu diwylliant o hunanwerthuso a chynllunio gwelliant y mae'r ysgol. Fodd bynnag, mae ystod y prosesau sicrhau ansawdd sydd ar waith yn yr ysgol ar hyn o bryd yn gyfyngedig. Er enghraifft, nid yw'r ysgol yn dadansoddi data disgyblion unigol ac ar lefel ysgol ar ymddygiad, presenoldeb na chynnydd mewn gwersi yn drylwyr.

Ers cael ei benodi, mae'r pennaeth wedi cynllunio system briodol ar gyfer rheoli perfformiad athrawon, sy'n cynnwys defnyddio arsylwadau gwersi i helpu gwerthuso ansawdd yr addysgu. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hyn wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn eto. O ganlyniad, nid oes gan arweinwyr dystiolaeth uniongyrchol drylwyr i lunio barn ar ansawdd y ddarpariaeth a'r safonau yn yr ysgol. Yn ychwanegol, nid ydynt yn gwerthuso effaith prosesau a systemau newydd neu rai wedi'u mireinio yn ddigon effeithiol.

Mae gan bob aelod o staff gyfrifoldebau ysgol gyfan ychwanegol fel rhan o'r model diwygiedig ar gyfer arweinyddiaeth ddosbarthedig o fewn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw rolau a chyfrifoldebau wedi'u cadarnhau o fewn y tîm eto, ac o ganlyniad, mae diffyg eglurder ynglŷn â'r rolau newydd hyn. Ynghyd â'u dyletswyddau addysgu, ni chaiff athrawon ddigon o amser dynodedig i ymgymryd â phob agwedd ar eu rolau.

Er bod gan arweinwyr weledigaeth glir, mae'r diffyg arweiniad ar gyfer staff yn eu rhwystro rhag ei gwireddu. Nid yw'r broses ymsefydlu ar gyfer staff newydd sy'n ymuno â'r ysgol yn drylwyr ac nid yw'n canolbwyntio ar addysg yn ddigon da. Er enghraifft, mae'r llawlyfr staff yn canolbwyntio ar y model gofal yn bennaf, ac nid yw'n cynnwys gwybodaeth am brosesau ac arweiniad ar gyfer staff addysg. O ganlyniad, nid yw staff newydd yn hyderus o ran eu rolau a'u lle yn y sefydliad ehangach.

Mae gan arweinwyr a staff raglen gynhwysfawr o gyfarfodydd i rannu gwybodaeth a thrafod agweddau ar waith yr ysgol gyda'r tîm ehangach o fewn y sefydliad. Er bod y cyfarfodydd hyn yn ystyried anghenion disgyblion, nid ydynt yn canolbwyntio ar ddysgu ac addysgu a'r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud yn ddigon da. Yn ychwanegol, mae cyfarfodydd arweinyddiaeth yn canolbwyntio gormod ar faterion gweithredol ac nid oes ganddynt oruchwyliaeth strategol.

Mae'r ysgol mewn lleoliad gwledig deniadol sy'n darparu cyfleoedd buddiol ar gyfer dysgu yn yr awyr agored a gweithgareddau cyfoethogi. Mae'n darparu amgylchedd dysgu ysgogol ac yn cynnwys adnoddau da, a ddefnyddir yn greadigol o fewn yr ysgol i ddiwallu anghenion cymdeithasol ac emosiynol heriol disgyblion.

Er nad oes gan yr ysgol gyllideb gwbl ddirprwyedig, mae cyfarwyddwyr yn sicrhau bod gan y pennaeth gyllideb briodol i'w defnyddio ar gyfer cynnal yr ysgol o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, mae diffyg eglurder ynghylch strwythur cyllid yr ysgol yn golygu nad yw'r pennaeth yn hyderus i allu cynllunio'n ddigonol ar gyfer gwelliant tymor hir neu weithredu blaenoriaethau allweddol yng nghynllun datblygu'r ysgol.

Nid oes gan yr ysgol ymagwedd strategol glir at ddysgu proffesiynol a sicrhau bod y dysgu hwn yn cael y canlyniad bwriadedig o ran cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn gweithio gyda staff cymorth i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o faterion sy'n effeithio ar ddisgyblion. Er enghraifft, mae pob un o'r staff yn cael eu hyfforddi mewn trawma plentyndod cynnar ac anhwylderau ymlyniad.

Mae'r sefydliad ehangach yn darparu hyfforddiant ar-lein mewn meysydd perthnasol fel diogelu, amddiffyn plant a dyletswydd Atal (Prevent). Mewn ychydig o feysydd, fodd bynnag, nid yw'r cyrsiau hyn yn ddigon perthnasol i rolau athrawon mewn addysg na'r arweiniad statudol perthnasol ar gyfer ysgolion yng Nghymru. Megis dechrau datblygu y mae cyfleoedd i staff addysgu gyfarfod yn rheolaidd i drafod materion yn gysylltiedig ag addysgu a dysgu, neu arsylwi arfer orau mewn ysgolion eraill. Yn ychwanegol, nid yw arweinwyr wedi canolbwyntio'n ddigon da ar ddysgu proffesiynol a fydd yn cynorthwyo staff preswyl i ddeall eu rôl mewn cynorthwyo disgyblion yn yr ystafell ddosbarth.

O ganlyniad i darfu sylweddol ar arweinyddiaeth yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf, nid yw'r ysgol wedi ymateb yn ddigon prydlon eto i argymhellion o arolygiadau blaenorol Estyn. Am y drydedd flwyddyn yn olynol, nid yw'r ysgol yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni / gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a staff cymorth trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr / perchennog / perchnogion, arweinwyr ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â gwersi ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi dysgu’r disgyblion
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol (lle bo’n briodol), gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (Gwefan Estyn)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: Gwefan Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Cymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  08/02/2024